

24 Tachwedd 2016

Ymddiried
mewn dŵr

Rheolau codi tâl cyfanwerthu newydd: dogfen penderfyniad

www.ofwat.gov.uk

ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2014, yn caniatáu i ni osod rheolau ynglŷn â'r taliadau y mae'n rhaid i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn¹ **gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr**² ac yn **gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru** gydymffurfio â hwy. Taliadau cyfanwerthu yw'r taliadau y bydd manwerthwyr³ yn eu hwynebu am wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol. Gosododd ein hadolygiad prisiau 2014 hefyd reolaethau prisiau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol ar wahân ar gyfer cwmnïau yng Nghymru a Lloegr.

Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd ein [Ymgynghoriad ar reolau codi tâl cyfanwerthu](#) (ein hymgyngoriad mis Awst). Mae'r rheolau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwnnw yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- bod manwerthwyr a chwmnïau manwerthu cysylltiedig cwmnïau dŵr presennol yn deall yn glir beth maent yn talu amdano;
- creïr sefyllfa deg ar gyfer manwerthwyr a, lle bo hynny'n briodol, gwireddir defnydd effeithiol o farchnadoedd; a
- bod manwerthwyr yn deall yn well eu costau ac ysgogwyr cost a bod y ddealltwriaeth hon yn hysbysu'n well y tâl maent yn ei godi.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ymatebion i'n hymgyngoriad mis Awst, ein hystyriaethau o'r ymatebion hynny a'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft a'r gofynion am wybodaeth. Fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'n rheolau codi tâl cyfanwerthu terfynol.

¹ Yn y ddogfen hon rydym yn defnyddio'r termau 'cyfanwerthwr' a 'cyfanwerthwyr' i gyfeirio at gwmnïau sydd â phenodiadau fel ymgymerywyr dŵr a/neu ymgymerywyr carthffosiaeth i'r graddau y mae'r cwmnïau hynny'n cynnal gweithgareddau cyfanwerthu.

² Mae cyfanwerthwr yn 'gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr' neu'n 'gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru' os yw'r ardal y mae ganddynt benodiad ar ei chyfer fel ymgymerywr dŵr neu fel ymgymerywr carthffosiaeth yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr neu yng Nghymru.

³ Yn y ddogfen hon rydym yn defnyddio'r termau 'manwerthwr' a 'manwerthwyr' i gyfeirio at bersonau sy'n ddeiliad trwydded cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth gydag awdurdodiadau manwerthu a/neu fanwerthu cyfyngedig.

Cynnwys

1. Trosolwg	4
2. Ein dull a'r datblygiadau diweddaraf	11
3. Ymatebion i'n hymgyngoriad	12

1. Trosolwg

Rhagymadrodd

O fis Ebrill 2017, bydd 1.2 miliwn o fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus (busnesau) yn Lloegr yn gallu dewis eu cyflenwr gwasanaethau manwerthu dŵr a dŵr gwastraff.⁴ Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd y cwmpas ar gyfer cystadleuaeth manwerthu yng Nghymru yn parhau ar y lefelau presennol, fel y bydd busnesau yng Nghymru yn gallu dewis eu cyflenwr dŵr (ond nid gwasanaethau dŵr gwastraff) os cyflenwir eu heiddo gydag o leiaf 50 mega litr o ddŵr y flwyddyn.

Cyn agor y farchnad mae angen i ni osod rheolau codi tâl cyfanwerthu a fydd yn gymwys yn Lloegr ac yng Nghymru⁵ (gan gydnabod y bydd angen i'n rheolau adlewyrchu'r agwedd wahanol tuag at gystadleuaeth manwerthu yn Lloegr a Chymru). Gan fod taliadau cyfanwerthu yn cyfrif am tua 90% o'r costau a wynebir yn y pen draw gan gwsmer busnes, bydd cael taliadau cyfanwerthu clir a thryloyw yn allweddol i ddatblygiad y farchnad manwerthu busnes, yn y farchnad manwerthu busnes yn Lloegr ac yn y rhan o'r farchnad manwerthu busnes sy'n agored i gystadleuaeth yng Nghymru.

Fodd bynnag, y tu hwnt i agor y farchnad manwerthu busnes, mae angen i ni osod rheolau codi tâl cyfanwerthu a fydd yn rhoi manteision o ran mwy o dryloywder taliadau a gwella atebolrwydd cyfanwerthwyr am eu taliadau a'r effaith y maent yn eu cael ar fanwerthwyr ac ar gwsmeriaid busnes.

Nod ein rheolau codi tâl cyfanwerthu yw sicrhau bod cyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a chyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn deall eu costau a'u hysgogwyr cost yn well, yn ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid a'u cwsmeriaid busnes a bod manwerthwyr newydd a chwmnïau manwerthu cysylltiedig cwmnïau dŵr presennol yn glir ynglŷn â'r hyn y maent yn talu amdano (waeth eu bod yn gweithredu mewn marchnad agored i gystadleuaeth ai peidio). A, lle mae cystadleuaeth manwerthu'n bresennol, mae ein rheolau codi tâl cyfanwerthu yn ceisio

⁴ Yn y ddogfen hon rydym hefyd yn defnyddio'r termau 'busnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus' a

'busnesau' i gyfeirio at bersonau sy'n meddiannu eiddo dibreswyl.

⁵ mae diwygiadau a wnaed i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 gan Ddeddf Dŵr 2014 yn golygu bod gofyniad arnom i osod rheolau codi tâl cyfanwerthu ac nid oes angen i ni mwyach gymeradwyo cynlluniau codi tâl cyfanwerthu cwmnïau dŵr. (Cynllun taliadau yw'r datganiad cyfreithiol o daliadau a thelerau cysylltiedig cwmni sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o'i gwsmeriaid.)

sicrhau bod y manteision sy'n gysylltiedig â defnydd effeithiol marchnadoedd yn cael eu gweld gan fanwerthwyr newydd a chwmnïau manwerthu cysylltiedig cwmnïau dŵr presennol, a holl gwsmeriaid busnes cymwys – busnesau, cyrff sector cyhoeddus ac elusennau yn Lloegr a chwsmeriaid busnes sy'n defnyddio mwy na 50 mega litr o ddŵr y flwyddyn yng Nghymru.⁶

Mae ein rheolau codi tâl cyfanwerthu hefyd yn cyfrannu ar gyflawni ein strategaeth - bod yn glir ynglŷn â'r disgwyliadau a wynebir gan gwmnïau, a'u galluogi a'u cymell i gyflawni yn erbyn y rheini mewn ffyrdd effeithlon ac arloesol. Hefyd, maent yn chwarae rhan bwysig mewn ysgogi effeithlonrwydd, cynyddu tryloywder a, lle bo hynny'n briodol, galluogi defnydd priodol ac effeithiol o farchnadoedd. Yn benodol, mae taliadau cyfanwerthu sy'n adlewyrchu costau darparu gwasanaethau cyfanwerthu yn anfon arwyddion sy'n galluogi ac yn cymell creu gwerth drwy ail-ystyried y costau hynny a'r chwiliad am effeithlonrwydd. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr y farchnad ynglŷn â chyflenwi neu beidio, neu i wneud neu i brynu. Mae hyn yn bwysig os ydym am weld penderfyniadau effeithiol yn cael eu gwneud gan gyfanwerthwyr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr neu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac os ydym am weld y marchnadoedd yn datblygu – boed hynny'r farchnad manwerthu busnes yn Lloegr, y farchnad manwerthu busnes agored i gystadleuaeth yng Nghymru, y farchnad adnoddau dŵr neu'r farchnad bio-adnoddau.⁷

Wrth ddatblygu ein rheolau codi tâl cyfanwerthu rydym wedi ystyried y canllawiau codi tâl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru⁸ a'r gwahaniaethau yn y trefniadau cystadleuaeth yn Lloegr a Chymru. Rydym felly wedi ceisio sicrhau bod ein rheolau yn rhoi manteision waeth a oes marchnad manwerthu busnes agored i gystadleuaeth yn bresennol ai peidio. Er enghraifft, bydd ein rheolau yn rhoi manteision o ran mwy o dryloywder taliadau a gwella atebolrwydd cyfanwerthwyr am eu taliadau a'r effaith y maent yn eu cael ar fanwerthwyr ac ar gwsmeriaid busnes. Bydd ein dull hefyd yn cynorthwyo manwerthwyr i ysgogi effeithlonrwydd yn y farchnad cyfanwerthu wrth iddynt gymharu (a chwestiynu) y taliadau cyfanwerthu sydd wedi eu cynnig.

⁶ Mae gwybodaeth am gymhwyster ar gael trwy ein [Canllawiau cymhwyster ynglŷn ag a yw cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid eu manwerthwr a Chanllawiau ategol ynglŷn ag a yw cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid eu manwerthwr](#).

⁷ I gael rhagor o wybodaeth am hyrwyddo marchnadoedd effeithiol gweler: [Towards Water 2020 – materion polisi](#):

hyrwyddo marchnadoedd.

⁸ Mae hyn yn cynnwys canllawiau codi tâl y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar.

Ymgynghori ar reolau codi tâl cyfanwerthu

Amlinellodd ein hymgyngoriad mis Awst ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft ar gyfer cyfanwerthwyr (yn cynnwys NAVs⁹ a Cholderton and District Water Company Limited) y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr neu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Dyma'r rheolau a fydd yn gymwys i unrhyw gyfnod yn dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2017¹⁰ ac maent yn cydnabod y gwahaniaethau yn y trefniadau cystadleuaeth yng Nghymru a Lloegr.

Crynodeb o'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft

Gan gydnabod y gwahaniaethau sylweddol mewn strwythur taliadau rhwng cyfanwerthwyr ac y gallai mwy o safoni strwythurau taliadau leihau cymhlethdod, cynigodd ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft bod cyfanwerthwyr yn Lloegr yn ystyried 'egwyddorion codi tâl cyffredinol' wrth osod eu taliadau cyfanwerthu. Ein disgwyliad yw y bydd hyn yn hyrwyddo cysondeb ar draws cyfanwerthwyr. Gan ddangos cysondeb gyda'n strategaeth - bod yn glir ynglŷn â'r disgwyliadau y mae cwmnïau'n eu hwynebu, a'u galluogi a'u cymell hwy i gyflawni yn erbyn y rheini mewn ffyrdd effeithlon ac arloesol - ni wnaethom gynnig cynllunio a nodi tariffau cyfanwerthwyr. Yn hytrach, ein cynnig oedd gadael i gyfanwerthwyr arloesi, a chynllunio a nodi eu tariffau cyfanwerthu eu hunain.

Gan ein bod eisiau sicrhau sefyllfa deg yn y farchnad manwerthu busnes agored i gystadleuaeth gwnaethom gynnig bod cyfanwerthwyr yn amlinellu beth y maent yn disgwyl i'w taliadau cyfanwerthu sylfaenol¹¹ fod – ar gyfer pob manwerthwr - dri mis cyn cyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu terfynol.¹² Rydym yn cyfeirio at y taliadau hyn fel taliadau cyfanwerthu

⁹ Cwmni sy'n newydd ddyfodiad i'r farchnad sydd â phenodiad fel ymgymwrwr dŵr a/neu garthffosiaeth yw NAV ond sydd fwyaf cyffredin yn gwasanaethu safleoedd ('mewnosodiadau') sydd wedi'u datblygu (ailddatblygu) ers preifateiddio. Er enghraifft, gall datblygwr benderfynu dod o hyd o ddewis amgen i'r ymgymwrwr dŵr a/neu garthffosiaeth presennol er mwyn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol. Gall NAVs gyflenwi gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar sail barhaus. Gallant hefyd gael dŵr o'u ffynhonnell eu hunain, neu ei brynu gan ymgymwrwr dŵr arall; yn yr un modd gallant naill ai drin y carthion eu hunain neu gytuno i'w arllwysu i garthffosydd ymgymwrwr carthffosiaeth arall. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae NAVs wedi tueddu i ddarparu gwasanaethau 'manwerthu' yn ogystal â rhai gwasanaethau 'cyfanwerthu' sydd yn gyffredinol yn ymwneud â'r 'filltir olaf' o seilwaith ar y safle a phibelli y maent yn eu mabwysiadu neu'n eu gosod ar gyfer datblygwr.

¹⁰ Nid yw'r rheolau hyn yn ôl-weithredol. Ym mis Mawrth 2016 gofynnem i gyfanwerthwyr gyhoeddi taliadau cyfanwerthu dangosol ar gyfer 2017-18 erbyn mis Hydref 2016 (Gweler [IN 16/02](#)).

¹¹ Taliadau cyfanwerthu sylfaenol yw'r taliadau sy'n nodweddiadol yn cynnwys taliadau blynyddol seiliedig ar fesurydd a/neu daliadau cyfeintiol.

¹² Rydym hefyd yn cynnig bod cyfanwerthwyr yn cyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu terfynol o leiaf 11 wythnos cyn dechrau'r cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Rydym yn tybio y bydd blwyddyn codi tâl yn parhau fel blwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill, nid yn lleiaf oherwydd bod y prosesau a gynlluniwyd gan MOSL (ar gyfer agor y farchnad manwerthu yn Lloegr) wedi eu halinio i'r ffrâm amser Ebrill - Mawrth.

dangosol. Bydd cyhoeddi taliadau cyfanwerthu dangosol yn sicrhau bod manwerthwyr yng Nghymru a Lloegr yn glir ynglŷn â beth y maent yn talu amdano a gallant ymateb yn briodol.

Gwnaethom hefyd gynnig os yw cyfanwerthwr yn ystyried addasu'n sylweddol ei daliadau cyfanwerthu bod manwerthwyr yn cael eu hysbysu o hyn o leiaf chwe mis cyn cyhoeddiad ei daliadau cyfanwerthu terfynol.¹³ Dylai'r dull hwn:

- roi digon amser i fanwerthwyr ystyried eu hymateb i unrhyw newidiadau arfaethedig i daliadau cyfanwerthu, datblygu eu strategaethau prisio (manwerthu) ac ymgysylltu â'u cwsmeriaid; a
- chynnyddu'r pwysau ar gyfanwerthwyr i ddeall yn well eu costau a'u hysgogwyr cost.

Gofynnwyd i Fyrddau cwmnïau roi sicrwydd i ni fod eu taliadau cyfanwerthu dangosol yn gywir ac wedi eu hystyried yn briodol. Cynigwyd hefyd lefel debyg o sicrwydd Bwrdd ar gyfer eu taliadau cyfanwerthu terfynol, er fel rhan o hynny gofynnwyd hefyd i Fyrddau gyhoeddi datganiad yn egluro unrhyw newid sylweddol rhwng taliadau cyfanwerthu dangosol a therfynol. Roeddem yn teimlo y byddai'r sicrwydd hwn yn helpu i siŵr bod Byrddau'n cymryd perchnogaeth o'u taliadau'n bod deg a rhesymol (ac yn gywir o ran sicrhau eu cydymffurfiad parhaus gyda rhwymedigaethau eu trwydded a'u rhwymedigaethau o dan gyfraith cystadleuaeth).

Gwnaethom hefyd gynnig bod asesiad effaith cymesur yn cael ei gynnal gan Fyrddau cwmnïau lle disgwylir y bydd y taliadau cyfanwerthu a wynebir gan fanwerthwyr (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn cynyddu gan fwy na 5% ar y flwyddyn flaenorol. Hefyd, roedd hi'n ofynnol i fanwerthwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid busnes (yn gyfan neu mewn grwpiau) ac ystyried yr effaith y byddai eu cynigion yn ei gael ar eu biliau.¹⁴ Roeddem yn teimlo y byddai'r gofynion hyn yn sicrhau bod cyfanwerthwyr wedi ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu taliadau cyfanwerthu, a'u bod wedi diwygio eu taliadau fel sy'n briodol, ac wedi cynnwys unrhyw drefniadau pontio priodol.

¹³ Nid oes angen i'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r hysbysiad hwn fod mor gynhwysfawr â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eu taliadau dangosol a/neu unrhyw ddatganiad o newidiadau sylweddol.

¹⁴ Roeddem yn teimlo bod hyn yn rhesymol gan fod taliadau cyfanwerthu yn nodweddiadol yn cyfrif am tua 90% o'r costau a wynebir yn y pen draw gan fusnes.

Roedd ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyfanwerthwr nodi'n glir y gwahanol daliadau gwasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu cynnig i randdeiliaid. Bydd gofyn i gyfanwerthwyr yn Lloegr hefyd i wahanu'r gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu cynnig i randdeiliaid yn Lloegr erbyn mis Ebrill 2020.¹⁵ Felly anogwyd cyfanwerthwyr yn Lloegr i ddechrau ystyried sut y byddant yn gwahanu eu taliadau ar gyfer trin elifiant masnachol, dŵr budr, draenio priffyrdd a draenio dŵr wyneb. Roedd y lefel hon o dryloywder yn ceisio sicrhau bod manwerthwyr yng Nghymru a Lloegr yn glir ynglŷn â beth y maent yn talu amdano a'u bod yn gallu ymateb yn briodol, yn cynnwys drwy roi mwy o bwysau ar gyfanwerthwyr i ddeall yn well eu costau a'u hysgogwyr cost eu hunain.

Gwnaethom hefyd gynnig ei bod hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddatgan yn glir pa ddisgowntiau draenio dŵr wyneb consesiynol a allai fod ar gael a sut y gellid cael mynediad at y disgowntiau hyn. Dylai ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddarparu'r wybodaeth hon i fanwerthwyr ganiatáu i fanwerthwyr wneud penderfyniadau amserol ynglŷn â disgowntiau ar gyfer eu cwsmeriaid.

Er mwyn hwyluso tryloywder a chyfanrwydd taliadau cyfanwerthu gwnaethom hefyd gynnig bod cyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr (sy'n cynnwys newydd ddyfodiaid bach newydd (y cyfeirir atynt yn aml fel "NAVs") a Cholderton and District Water Company Limited) yn cynnwys y wybodaeth ganlynol pan fyddant yn cyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu:

- gwybodaeth am eu taliadau sylfaenol - taliadau yw'r rhain sy'n nodweddiadol yn cynnwys taliadau blynyddol seiliedig ar fesurydd a/neu daliadau cyfeintiol ar gyfer darpariaeth cyflenwad dŵr, neu wasanaethau carthffosiaeth, i eiddo; a
- gwybodaeth ar restr ofynnol (fel y pennir gennym ni) o'r taliadau ar gyfer gwasanaethau ansylfaenol a ddarperir gan gyfanwerthwyr yn uniongyrchol i gwsmeriaid. Mae enghreifftiau o daliadau ansylfaenol yn cynnwys taliadau am ddatgysylltu, profi mesurydd, darparu hydrantau tân a phrofion pwysedd. A, lle nad yw'n bosibl i'r taliadau ansylfaenol hyn gael eu pennu ymlaen llaw, bydd gofyn i gyfanwerthwyr nodi'r fethodoleg y byddant yn ei defnyddio i gyfrifo'r taliadau hynny.

¹⁵ Nid oeddem yn teimlo bod y gofyniad hwn yn briodol ar gyfer cyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru oherwydd bod lefel y gystadleuaeth yng Nghymru yn parhau ar lefelau presennol ac o gofio'r themâu allweddol a amlinellir yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru.

Gan ein bod am i fanwerthwyr newydd gystadlu am gwsmeriaid busnes cymwys sydd ar gytundebau arbennig¹⁶, gwnaethom hefyd amlinellu ein disgwyliad bod cyfanwerthwyr yn cyhoeddi'r taliadau cyfanwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes cymwys sydd ar hyn o bryd ar gytundebau arbennig gyda'u taliadau cyfanwerthu. Bwriad y cynnig hwn oedd cynyddu tryloywder a sicrhau bod manwerthwyr yn ymwybodol o faint yr elw sydd o bosibl ar gael.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniom 20 ymateb i'n hymgyngoriad mis Awst, yn cynnwys gan gwmnïau dŵr, Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater) a Sefydliad y Peirianwyr Sifil (gweler Atodiad 3).¹⁷ Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn gefnogol i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu, er y mynegodd rai pryderon ynglŷn â'n dull a drafftio o reolau penodol (gweler pennod 3).

Ystyried ymatebion

Wedi ystyried ymatebion i'n hymgyngoriad mis Awst, rydym wedi gwneud nifer o fân newidiadau i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft ond rydym wedi gadael ein polisi cyffredinol ar y cyfan heb ei newid. Mae ein newidiadau yn gwella eglurder ein rheolau codi tâl cyfanwerthu ac yn sicrhau bod y polisi y gwnaethom ei amlinellu yn ein hymgyngoriad mis Awst yn cael ei gyfleu'n llwyr.

Y newidiadau allweddol a wnaed i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft yw:

- rheol 26 (Cwmnïau bach) i sicrhau ei bod yn gymwys i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (ac nid dim ond y rheini y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr);
- gofyniad gwybodaeth A1 fel ei bod yn cynnwys ein polisi datganedig (fel yr amlinellir yn ein hymgyngoriad mis Awst) lle bo newidiadau sylweddol i daliadau cyfanwerthu dangosol wedi digwydd rhwng cyhoeddiad y taliadau hyn a chyhoeddiad ei daliadau cyfanwerthu terfynol, mae'n ofynnol i Fwrdd gyhoeddi datganiad yn egluro pam y digwyddodd y newidiadau hyn a pham na ragwelwyd a/neu na liniarwyd y newidiadau hynny; a
- gofyniad gwybodaeth A2 i egluro nad oes angen i'r wybodaeth codi tâl dangosol, a ddarperir dim hwyrach na chwe mis cyn y cyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol, fod mor fanwl â'r gofynion a restir yng ngofyniad gwybodaeth A4 (sy'n ymwneud â'r wybodaeth codi tâl dangosol a ddarperir dim hwyrach na thri mis cyn y cyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol).

¹⁶ Caniateir i gyfanwerthwyr sy'n darparu gwasanaethau manwerthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid osod eu taliadau yn unol â chynllun taliadau statudol neu ar sail cytundeb gyda busnes. Lle defnyddir cytundebau rydym yn cyfeirio at y rhain fel cytundebau arbennig.

¹⁷ Gwnaethom hefyd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar wahanol faterion codi tâl.

Strwythur y ddogfen

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae pennod 2 yn ystyried ein dull a'r datblygiadau diweddaraf; ac
- Mae pennod 3 yn ystyried ymatebion i'n hymgyngoriad mis Awst yn ogystal â'n hystyriaeth i'r ymatebion hynny.

Yn atodiad 1 rydym yn nodi'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft a gofynion gwybodaeth. Mae atodiad 2 yn amlinellu ein cwestiynau ymgynghoriad ac mae atodiad 3 yn darparu rhestr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n hymgyngoriad mis Awst.

Cyhoeddwyd ein rheolau codi tâl cyfanwerthu ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) wedi cyhoeddi'r rheolau hyn o dan:

- adran 66E Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel yr amnewidiwyd gan baragraff 5 Atodlen 2 i Ddeddf Dŵr 2014) mewn perthynas â'r taliadau a wneir gan ymgymwrwr dŵr i drwyddedai cyflenwi dŵr gydag awdurdodiad manwethu (Lloegr) neu fanwerthu cyfyngedig (Cymru); ac
- adran 117I Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y mewnosodwyd gan Atodlen 4 i Ddeddf Dŵr 2014) mewn perthynas â'r taliadau a wneir gan ymgymwrwr carthffosiaeth i drwyddedai carthffosiaeth gydag awdurdodiad manwerthu.

2. Ein dull a'r datblygiadau diweddaraf

Fel yr amlinellir yn ein hymgyngoriad mis Awst, wrth bennu ein rheolau codi tâl cyfanwerthu rydym wedi ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r lefel o gystadleuaeth manwerthu a ganiateir yng Nghymru a Lloegr.

Roedd ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft yn adlewyrchu [Canllawiau codi tâl i Ofwat](#) (ar gyfer cyfanwerthwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr) Llywodraeth y DU ac [Ymgynghoriad ar Ganllawiau Codi Tâl i Ofwat \(rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr\)](#) Llywodraeth Cymru, ar gyfer cyfanwerthwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Ar 12 Medi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Codi Tâl i Ofwat gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau wedi iddynt fod gerbron y Cynulliad am 40 diwrnod (oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu na ddylid eu cyhoeddi). Rydym wedi ystyried yr egwyddorion a blaenoriaethau polisi a amlinellir yn y ddogfen honno ac yn nodi, yn gyson â'n hymgyngoriad mis Awst, bod hwn wedi ei ddrafftio o fewn cyd-destun dwy thema allweddol y Strategaeth Ddŵr i Gymru:

- darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid; a
- dŵr ar gyfer natur, pobl a busnes.

Er y bu newidiadau rhwng yr [Ymgynghoriad ar Ganllawiau Codi Tâl i Ofwat \(rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr\)](#) a'r Canllawiau Codi Tâl i Ofwat sydd wedi eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nid ydym yn ystyried bod y newidiadau hyn, ar eu pen eu hunain, yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni addasu ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach ar reolau codi tâl cyfanwerthu, byddwn yn ystyried a oes angen newidiadau i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu.

3. Ymatebion i'n hymgyngoriad

Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'n hymgyngoriad mis Awst a'n hystyriaeth i'r ymatebion hynny.

3.1 Rhagymadrodd

Derbyniom 20 ymateb i'n hymgyngoriad mis Awst, gan ystod o randdeiliaid, yn cynnwys cwmnïau dŵr, CCWater a Sefydliad y Peirianwyr Sifil (gweler Atodiad 3). Cawsom hefyd nifer o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar agweddau penodol o'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft.

Roedd ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu, er y mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'n dull a drafftio o'n rheolau. Mae crynodeb o farn ymatebwyr i gwestiynau y gwnaethom eu hamlinellu yn ymgynghoriad mis Awst, ynghyd â'n ymateb i'r farn honno, wedi eu hamlinellu isod.

3.2 Crynodeb o ymatebion

Cwestiwn 1: A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 1? A oes rheolau ychwanegol y dylem eu cynnwys yn y dyfodol?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi ein rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft, gan deimlo eu bod yn glir, defnyddiol ac wedi'u datblygu'n dda. Fodd bynnag, cawsom ein herio ar rai agweddau penodol o'n dull a'n drafftio o reolau penodol. Rydym wedi ystyried yr heriau hyn wrth gwblhau ein rheolau codi tâl cyfanwerthu, gyda'r pryderon allweddol yn cael eu trafod yn ein hadrannau 'Ein barn' isod.

Derbyniom ddau gynnig ar gyfer rheolau ychwanegol a thrafodir y ddau isod.

Rheol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr strwythuro eu taliadau gan ddefnyddio'r un bandiau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer penderfyniadau PR16.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i gyfanwerthwyr strwythuro eu taliadau gan ddefnyddio'r un bandiau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer rheolaethau prisiau manwerthu busnes (PR16) Fel yr amlinellwyd yn ein hymgyngoriad mis Awst, rydym yn teimlo y gallai safoni

strwythur taliadau cyfanwerthu leihau lefel adlewyrchedd cost mewn taliadau cyfanwerthu, a gallai gyfyngu ar arloesedd taliadau cyfanwerthu, a allai, yn yr hirdymor, ffafrio cyfanwerthwyr aneffeithlon. Hefyd, cynlluniwyd PR16 i roi diogelwch ôl-stop ar gyfer cwsmeriaid busnes ac ategu datblygiad cystadleuaeth. Golyga hyn bod capiau tariff diofyn yn cwmpasu dim ond strwythurau tariff presennol ac ni fyddant yn gymwys i unrhyw dariffau newydd sy'n dod i'r amlwg gyda datblygiad cystadleuaeth.¹⁸ O gofio'r uchod, nid ydym yn teimlo y byddai'n briodol i gyflwyno rheol newydd i fynd i'r afael â'r mater penodol hwn.

Rheol yn ymwneud â disgowntiau ar gyfer manwerthwr sy'n cymryd camau i leihau neu reoli dŵr gwastraff.

Yn ein hymgyngoriad mis Awst gwnaethom amlygu parodrwydd i ystyried rheolau i ganiatáu ar gyfer gostyngiad mewn taliadau er mwyn cydnabod manwerthwyr yn cymryd camau i gynorthwyo i leihau neu reoli defnydd dŵr neu elifiant deunydd o eiddo; neu fanwerthwyr yn cymryd camau at ddiben lleihau cyfaint y dŵr wyneb sy'n mynd i mewn i garthffosydd cyhoeddus neu'r gyfradd y mae'n gwneud hynny.

Roedd cefnogaeth gyfyngedig ar gyfer y cynnig hwn gyda dim ond un ymatebydd yn amlygu nad oedd yn gwrthwynebu rheol o'r fath. O gofio'r ymatebion a dderbyniwyd ar y mater hwn ac y dylai codi tâl seiliedig ar fesurydd sicrhau bod taliadau dŵr cyfanwerthu yn rhoi gostyngiadau priodol i fanwerthwyr sy'n cynorthwyo i leihau neu reoli defnydd dŵr, nid ydym yn teimlo bod angen rheol codi tâl cyfanwerthu newydd ar hyn o bryd. Byddwn fodd bynnag yn parhau i ystyried y mater hwn a nodwn fod cyfanwerthwyr yn rhydd i gynnig disgowntiau i fanwerthwyr sy'n cymryd camau i leihau neu reoli dŵr gwastraff.

Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno gyda'r trothwy (5%) a gynigir gennym ar gyfer cynnydd sylweddol mewn biliau, y bydd gofyn i gyfanwerthwyr os byddant yn mynd y tu hwnt iddo gynnal asesiad effaith ar gyfer newidiadau i daliadau?

¹⁸ Gellir cael rhagor o wybodaeth am PR16 yn [Adolygiad prisiau manwerthu busnes 2016 \(PR16\): penderfyniadau drafft.](#)

Crynodeb o'n cynnig

Gwnaethom gynnig bod asesiad effaith cymesur yn cael ei gynhyrchu gan Fyrddau cwmnïau lle disgwylir y bydd y taliadau cyfanwerthu a wynebir gan fanwerthwyr (yn gyfan neu mewn grwpiau) i gynyddu gan fwy na 5% ar y flwyddyn flaenorol. Roeddem yn teimlo y byddai hyn yn sicrhau bod cyfanwerthwyr wedi ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu taliadau cyfanwerthu, wedi diwygio eu taliadau fel sy'n briodol, ac wedi cynnwys unrhyw drefniadau pontio priodol.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr gyda'n trothwy 5% ar gyfer cynnydd sylweddol mewn biliau o gofio'r amgylchedd chwyddiant isel, er bod nifer wedi awgrymu y dylid parhau i adolygu'r trothwy hwn. Lle mynegwyd pryderon, roeddent yn ymwneud â'r angen i'n trothwy roi ystyriaeth i chwyddiant a/neu fod â throthwy dwy ran, un a oedd yn cynnwys canran ac isafswm gwerth punt.

Ein barn

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y gofyniad hwn. Ond, rydym yn cydnabod tra bod chwyddiant ar hyn o bryd yn isel gall hyn newid, felly rydym wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r trothwy 5%. Nid ydym yn dal wedi ein hargyhoeddi ynglŷn â rhinwedd gosod cynnydd isafswm punt (£) fel rhan o'r trothwy dwy ran. Byddai unrhyw elfen punt (£) sefydlog o fewn trothwy yn gofyn am adolygiad cyson i sicrhau perthnasedd parhaus, a fyddai'n rhoi baich gweinyddu gormodol ac, os y'i newidir, gallai beri dryswch.

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i beidio â gosod rheolau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i safoni taliadau cyfanwerthu ar y pwynt hwn, ond i ystyried y mater hwn ymhellach, wedi i'r farchnad agor, gan roi ystyriaeth i unrhyw gynnydd gan y diwydiant i ddatblygu strwythurau codi tâl wedi'u safoni a'r manteision o'r safoni hwnnw?

Crynodeb o'n cynnig

Gwnaethom gynnig bod cyfanwerthwyr yn Lloegr yn ystyried 'egwyddorion codi tâl cyffredinol' wrth osod eu taliadau cyfanwerthu. Ein disgwyliad yw y bydd hyn yn hyrwyddo cysondeb ar draws cyfanwerthwyr. Ni wnaethom gynnig cynllunio a nodi tariffau

cyfanwerthwyr. Yn hytrach, ein cynnig oedd gadael i gyfanwerthwyr arloesi, a chynllunio a nodi eu tariffau cyfanwerthu eu hunain.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i beidio â'i gwneud hi'n ofynnol i safoni strwythur taliadau cyfanwerthu. Teimlwyd y gallai dull o'r fath leihau lefel adlewyrchedd cost mewn taliadau cyfanwerthu a gallai gyfyngu ar arloesedd mewn datblygiad taliadau. Fodd bynnag, dywedodd nifer o gyfanwerthwyr y byddent yn fodlon gweithio gyda chwmnïau eraill ar wahanol agweddau o safoni, yn cynnwys parthed y gwahanol derminoleg a ddefnyddir gan gyfanwerthwyr i ddiffinio gwasanaethau a thermau cyfanwerthu (gweler Cwestiwn 7). Awgrymodd un cwmni y gallai safoni disgowntiau dŵr wyneb fod o fudd.

Ein barn

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer ein cynnig i beidio â gosod rheolau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i safoni strwythur taliadau cyfanwerthu. Teimlwn nad yw safoni strwythur taliadau cyfanwerthu yn briodol ar hyn o bryd, nid yn lleiaf gan y gallai gyfyngu ar arloesedd mewn datblygu taliadau a allai, yn yr hirdymor, ffafrio cyfanwerthwyr aneffeithlon. Rydym hefyd yn croesawu parodrwydd rhai cyfanwerthwyr i ystyried elfennau o safoni gyda chyfanwerthwyr eraill. Rydym fodd bynnag yn disgwyl dychwelyd at y mater hwn unwaith y bydd y farchnad yn agor a bod tystiolaeth newydd ar gael.

Nid ydym yn teimlo y byddai safoni disgowntiau dŵr wyneb yn briodol. Nid oes rhwymedigaeth ar gyfanwerthwyr i roi'r disgownt hwn - mae ei ddarpariaeth yn wirfoddol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - felly gallai safoni wedi'i reoleiddio beidio ag annog a/neu atal cyfanwerthwyr rhag cynnig y disgowntiau hyn. Mewn geiriau eraill, o gofio gwahanol gostau ac ysgogwyr cost cyfanwerthwyr, gallai safoni wedi'i reoleiddio o'r disgownt hwn ddileu hyblygrwydd cyfanwerthwr i fynd i'r afael yn effeithiol â'r amgylchiadau galw/cyflenwi penodol sy'n briodol i'w gwsmeriaid.

Cwestiwn 4: A ydych chi'n ystyried bod ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddarparu diweddariad ar newidiadau sylweddol posibl i'w taliadau cyfanwerthu chwe mis cyn y cyhoeddi eu taliadau terfynol yn briodol? Ac, a ydych chi'n ystyried bod gofyn am wybodaeth am eu taliadau cyfanwerthu dangosol sylfaenol dri mis cyn bod unrhyw daliadau newydd yn cael eu cyhoeddi yn rhesymol?

Crynodeb o'n cynnig

Er mwyn hwyluso sefyllfa deg yn y farchnad manwerthu busnes agored i gystadleuaeth gwnaethom gynnig bod cyfanwerthwyr yn amlinellu beth y maent yn disgwyl i'w taliadau cyfanwerthu sylfaenol fod dri mis cyn cyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu terfynol. Gwnaethom hefyd gynnig os yw cyfanwerthwr yn ystyried addasu'n sylweddol ei daliadau cyfanwerthu bod manwerthwyr yn cael eu hysbysu o hyn o leiaf chwe mis cyn cyhoeddiad ei daliadau cyfanwerthu terfynol.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig y dylai gwybodaeth codi tâl mynegol gael ei chyhoeddi dri mis a chwe mis cyn y cyhoeddir eu taliadau cyfanwerthu terfynol. Fodd bynnag, awgrymodd nifer ohonynt y gellid gwella ein rheolau drafft drwy ei gwneud hi'n gliriach y gallai'r wybodaeth codi tâl dangosol sy'n ofynnol chwe mis cyn y cyhoeddir taliadau terfynol fod yn llai manwl na'r wybodaeth sy'n ofynnol dri mis cyn y cyhoeddir y taliadau terfynol. Roedd pryderon eraill yn ymwneud ag amseriad y gofynion hyn a'r cwmpas ar gyfer ein dull yn cyfyngu arloesedd a pheri dryswch.

Ein barn

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y cynigion hyn a ddylai sicrhau tryloywder mewn taliadau cyfanwerthwyr a fydd yn cynorthwyo i wneud yn siŵr bod gan fanwerthwyr hyder ac ymddiriedaeth yn nhaliadau dangosol cyfanwerthwyr. Rydym, fodd bynnag, yn cydnabod y gellid gwella eglurder ein rheolau drafft ar daliadau dangosol. Rydym felly wedi egluro nad oes angen i'r wybodaeth a rhyddheir gan gyfanwerthwr chwe mis cyn y cyhoeddir taliadau terfynol fod mor fanwl â naill ai'r wybodaeth ddangosol a ryddheir dri mis cyn cyhoeddiad a/neu unrhyw ddatganiad o newidiadau sylweddol. Rydym, fodd bynnag, wedi ei gadael hi'n agored i gyfanwerthwyr benderfynu pa wybodaeth y maent yn ei darparu a sut y maent yn ymgysylltu â'u cwsmeriaid er mwyn cyfleu'r wybodaeth hon - materion y mae'n well bod y cyfanwerthwr yn penderfynu arnynt.

Mae ein rheolau codi tâl cyfanwerthu yn rhoi cwmpas i gyfanwerthwyr arloesi. Cyn belled bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol, bod ymgysylltu priodol yn digwydd

a lle bo newidiadau yn cael eu cynnig y cyhoeddir y sicrwydd Bwrdd angenrheidiol a datganiad o newid sylweddol, mae cyfanwerthwyr yn rhydd i arloesi.¹⁹

Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno bod ei gwneud hi'n ofynnol i gael sicrwydd Bwrdd ar gyfer taliadau cyfanwerthu sylfaenol dangosol yn rhesymol? A, lle bo newidiadau sylweddol yn lefel y taliadau yn y tri mis rhwng taliadau dangosol a therfynol, ei bod yn rhesymol i'w gwneud hi'n ofynnol i Fwrdd gyhoeddi, fel rhan o'i sicrwydd Bwrdd, ddatganiad yn egluro pam fod hyn wedi digwydd a pham na ragwelwyd hyn?

Crynodeb o'n cynnig

Gofynnwyd i Fyrddau cwmniâu roi sicrwydd i ni fod eu taliadau cyfanwerthu dangosol yn gywir ac wedi eu hystyried yn briodol. Cynnigwyd hefyd lefel debyg o sicrwydd Bwrdd ar gyfer eu taliadau cyfanwerthu terfynol, er fel rhan o hynny gofynnem hefyd i Fyrddau gyhoeddi datganiad yn egluro unrhyw newid sylweddol rhwng taliadau cyfanwerthu dangosol a therfynol. Roeddem yn teimlo y byddai'r sicrwydd hwn yn helpu i siŵr bod Byrddau'n cymryd perchnogaeth o'u taliadau'n bod deg a rhesymol (ac yn gywir o ran sicrhau eu cydymffurfiad parhaus gyda rhwymedigaethau eu trwydded a'u rhwymedigaethau o dan gyfraith cystadleuaeth).

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr bod sicrwydd Bwrdd ar gyfer taliadau dangosol yn rhesymol. Fodd bynnag, awgrymodd nifer fechan o ymatebwyr bod sicrwydd Bwrdd ar gyfer taliadau dangosol yn rhy drwm ac y dylid cyfyngu sicrwydd Bwrdd i'r taliadau terfynol. Awgrymodd ddau ymatebydd y byddai defnyddio mynegeion chwyddiant mis Medi ac nid mis Tachwedd i ddiweddarau taliadau yn lleihau'r angen i gyfanwerthwyr gyhoeddi dau sicrwydd Bwrdd.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi ein gofyniad bod Bwrdd yn cyhoeddi datganiad i egluro unrhyw newid sylweddol rhwng taliadau cyfanwerthu dangosol a terfynol. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr hynny hefyd nodi nad oeddem wedi llwyddo i gyfleu'r gofyniad

¹⁹ Bydd cyfanwerthwyr, wrth gwrs, hefyd yn gorfod sicrhau cydymffurfiad â'u rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol eraill, yn cynnwys y rheini yn eu trwydded o dan gyfraith cystadleuaeth.

hwn yn llawn yn ein rheolau drafft. Pryderon eraill a nodwyd gan ein hymatebwyr oedd y dylai'r datganiadau hyn:

- gael eu cyfyngu i newidiadau lefel uchel;
- ni ddylent ystyried newidiadau o ganlyniad i chwyddiant; ac
- ni ddylent gynnwys materion masnachol sensitif.

Ein barn

Bydd sicrwydd Bwrdd o daliadau dangosol yn cynorthwyo i feithrin ymddiriedaeth a hyder yn y farchnad, gan ei fod yn dangos bod y wybodaeth a ddarperir yn gadarn a bod y taliadau'n cydymffurfio â rhwymedigaethau trwydded cwmni a'i rhwymedigaethau o dan gyfraith cystadleuaeth. Mae manwerthwyr yn cael golwg ar daliadau cyfanwerthu dangosol yn ddigon cynnar hefyd yn allweddol i ddatblygiad llwyddiannus marchnad manwerthu busnes gan y bydd yn cynorthwyo i feithrin ymddiriedaeth a hyder, tra hefyd yn rhoi digon amser i fanwerthwyr ddatblygu eu taliadau a dechrau marchnata i gwsmeriaid posibl.

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer ein cynnig bod Byrddau'n cyhoeddi datganiad yn egluro (lle bo angen) pam fod newidiadau sylweddol wedi digwydd rhwng taliadau dangosol a thaliadau terfynol. Bydd y datganiad hwn yn ategu'r sicrwydd Bwrdd sydd ei angen dri mis cyn y cyhoeddir taliadau terfynol a bydd yn cynorthwyo i gryfhau ymddiriedaeth a hyder manwerthwyr mewn taliadau dangosol cyfanwerthwyr. Rydym, fodd bynnag, yn cydnabod na chafodd ein polisi ei gyfleu'n llawn yn ein rheolau drafft ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno gofyniad gwybodaeth A1(e) i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu terfynol. Bydd gofyniad gwybodaeth A1(e) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fwrdd, fel rhan o'i broses sicrwydd, gyhoeddi, lle bo taliadau cyfanwerthu terfynol yn wahanol iawn i'w daliadau cyfanwerthu dangosol, ddatganiad yn egluro pam na chafodd y newidiadau hynny eu rhagweld a/neu eu lliniaru. Wrth osod y gofyniad hwn nid ydym wedi nodi pa wybodaeth benodol ddylai gael ei chynnwys yn y datganiad hwn, gan mai mater i'w benderfynu orau gan Fyrddau ydyw. Bydd ansawdd y datganiad hwn fodd bynnag yn bwydo i'n hasesiadau ehangach o ansawdd gwybodaeth cwmni yn ein fframwaith monitro cwmni.

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno gyda'u gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr hysbysu manwerthwyr am brisiau ar wahân ar gyfer gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff cyfanwerthu a ddarperir iddynt? Ac, a ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol y dylai fod yn ofynnol i gyfanwerthwyr ystyried sut y byddant yn gwahanu - wedi ystyried costau'r gwasanaethau hyn ac wedi ymgysylltu'n briodol â'u rhanddeiliaid - y gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu darparu i'w cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Ebrill 2020?

Crynodeb o'n cynnig

Cynigom fod pob cyfanwerthwr yn nodi'n glir y gwahanol daliadau gwasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu cynnig i randdeiliaid. Bydd gofyn i gyfanwerthwyr yn Lloegr hefyd wahanu'r gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu cynnig i fanwerthwyr yn Lloegr erbyn mis Ebrill 2020. Bwriad y lefel hon o dryloywder yw sicrhau bod manwerthwyr yng Nghymru a Lloegr yn glir ynglŷn â beth y maent yn talu amdano a'u bod yn gallu ymateb yn briodol, yn cynnwys drwy roi mwy o bwysau ar gyfanwerthwyr i ddeall yn well eu costau a'u hysgogwyr cost eu hunain.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd ymatebion i'r cwestiynau hyn yn gymysg, ac nid oedd gan chwe ymatebydd unrhyw sylw o gwbl. O'r ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau, roedd eu hanner yn cytuno â'n cynigion. Roedd yr ymatebwyr oedd yn weddill yn teimlo mai prin fyddai'r budd i wahanu gwasanaethau dŵr gwastraff (dŵr budr, draeniad priffyrdd, a draeniad dŵr wyneb) a gaiff eu nodi'n nodweddiadol fel un cyfanswm mewn biliau. Nododd yr ymatebwyr hyn hefyd na fyddai newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr yn cael unrhyw effaith ar daliad draenio priffyrdd (un o'r gwasanaethau dŵr gwastraff a ddarperir) a fyddai nawr yn fwy gweladwy. Gofynnodd Dŵr Cymru hefyd am eglurhad ynghylch a fyddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i gyfanwerthwyr yng Nghymru, gan na fydd y farchnad ar gyfer dŵr gwastraff yng Nghymru yn un agored i gystadleuaeth.

Ein barn

Mae manteision i gynyddu tryloywder taliadau dŵr gwastraff, boed gwasanaethau dŵr gwastraff yn agored i gystadleuaeth ai peidio. Bydd mwy o dryloywder yn gwella atebolrwydd cyfanwerthwyr am eu taliadau ac am yr effaith y maent yn ei gael ar fanwerthwyr ac ar y cwsmeriaid terfynol. Bydd gwell tryloywder hefyd yn cynorthwyo manwerthwyr i wella eu penderfyniadau, drwy gynorthwyo newydd ddyfodiaid posibl i'r farchnad manwerthu i gymharu costau'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan gyfanwerthwyr ac i ganfod unrhyw gyfleoedd posibl.

Mae'r gofynion tryloywder dŵr gwastraff yr ydym wedi eu gosod yn gymwys i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a Chymru, er bod ein rheolau'n adlewyrchu'r gwahanol safbwyntiau y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi eu cymryd ar gystadleuaeth manwerthu. Felly, er eglurder:

- Bydd angen i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ddarparu mwy o wybodaeth o gymharu â'u cymheiriaid yng Nghymru - bydd angen iddynt nodi'n glir a wahanu'r gwahanol daliadau gwasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu cynnig i bob manwerthwr yn Lloegr erbyn mis Ebrill 2020.

- Bydd angen i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru dim ond egluro pa wasanaethau cyfanwerthu y mae'r manwerthwyr yn talu amdanynt yn eu taliadau cyfanwerthu - ni fydd angen iddynt wahanu'r gwahanol daliadau gwasanaethau dŵr gwastraff a ddarperir. Y cyfanwerthwr sydd i benderfynu sut y cyfathrebir hyn.

Rydym hefyd yn nodi bod ein rheolau codi tâl cyfanwerthu yn ymwneud â'r taliadau ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthu a ddarperir i fanwerthwyr ac nid ydynt yn rheolau ynghylch cynlluniau codi tâl ar gyfer cwsmeriaid terfynol. Felly mae hi fyny i'r manwerthwr sut y mae'n cyfathrebu gyda'i gwsmeriaid ar daliadau dŵr gwastraff, gan gydnabod ei rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno y dylai rhestr ofynnol o daliadau ansylfaenol ffurfio rhan o bob cynllun codi tâl cyfanwerthu? A ydych chi'n cytuno y dylai cyfanwerthwyr, ac nid Ofwat, geisio sicrhau mwy o gysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio taliadau ansylfaenol?

Crynodeb o'n cynnig

Gwnaethom gynnig bod yr holl gyfanwerthwyr yn cynnwys gwybodaeth ar restr ofynnol (fel y pennir gennym ni) o'r taliadau ar gyfer gwasanaethau ansylfaenol a ddarperir gan gyfanwerthwyr yn uniongyrchol i gwsmeriaid pan fyddant yn cyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu. Gwnaethom hefyd gynnig y dylai cyfanwerthwyr, ac nid Ofwat, geisio sicrhau mwy o gysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio taliadau ansylfaenol.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Cefnogodd mwyafrif y cyfranogwyr restr ofynnol o daliadau ansylfaenol mewn cynllun taliadau cyfanwerthu. Roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer mwy o gysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio taliadau ansylfaenol, er bod gwahaniaeth barn ynglŷn â ddylai Ofwat neu'r sector ddatblygu hyn. Roedd pryderon a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- pa mor rhesymol yw'r taliadau ansylfaenol yr oeddem wedi'u cynnwys yn ein rhestr ofynnol;
- a oedd y rhestr ofynnol hon yn berthnasol i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru; ac

- a fyddai'r wybodaeth hon yn well mewn 'dogfen tariff cyfanwerthu' yn hytrach na chynllun taliadau cyfanwerthu.²⁰

Ein barn

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth am ragor o gysondeb mewn terminoleg gan y bydd hyn yn cynorthwyo i leihau dryswch posibl ac yn cynorthwyo'r farchnad i ddatblygu. Rydym yn teimlo mai cyfanwerthwyr sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau cysondeb mewn terminoleg ar hyn o bryd, yn arbennig gan fod y mater hwn yn perthyn yn agos i safoni, sef mater y mae ymatebwyr wedi'i nodi fel un sy'n werth ei ddatblygu - gweler 'Ein barn' ar gwestiwn 3.

Er ein bod wedi nodi'r rhestr ofynnol o daliadau ansylfaenol, mae rhyddid gan gyfanwerthwyr i gyhoeddi (ac fe'u anogir i wneud hynny) taliadau ansylfaenol eraill fel rhan o'u cynlluniau taliadau cyfanwerthu. Rydym hefyd yn teimlo y gellid cyfuno cynllun taliadau cyfanwerthu a dogfen tariff cyfanwerthu (i'r graddau y byddent yn nodi'r un wybodaeth) neu eu cynnwys yn yr un ddogfen. Felly, dylai cyfanwerthwyr ystyried yn ofalus y ffordd orau y gallant fodloni gwahanol ofynion cyhoeddi sydd wedi'u gosod parthed taliadau cyfanwerthu.

Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion y bydd gofyn i gyfanwerthwyr gyhoeddi'r fethodoleg sy'n sail i daliadau ansylfaenol ar gyfer set gyfyngedig o daliadau lle na ellir gosod y taliadau hyn ymlaen llaw? A yw'r dull hwn yn gymesur ac a fydd yn effeithiol?

Crynodeb o'n cynnig

Ein cynnig oedd y bydd gofyn i gyfanwerthwyr gyhoeddi'r fethodoleg sy'n sail i daliadau ansylfaenol ar gyfer casgliad cyfyngedig o daliadau lle na ellir gosod y taliadau hyn ymlaen llaw. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod tryloywder parthed sut y byddai'r taliadau hyn yn cael eu gosod a bod cyfanwerthwyr wedi ystyried yn ofalus y costau a'r ysgogwyr cost sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny.

²⁰ Dogfen y mae angen i gyfanwerthwr ei chyhoeddi o dan y cod cyfanwerthu-manwerthu yw dogfen tariff cyfanwerthu. I gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol ofynion gwybodaeth parthed taliadau cyfanwerthu, gweler Atodiad 2 ein hymgyngoriad mis Awst.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion bod cyfanwerthwyr yn cyhoeddi'r fethodoleg sy'n sail i'r taliadau ansylfaenol ar gyfer set gyfyngedig o daliadau lle na ellir gosod y taliadau hyn ymlaen llaw. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn teimlo bod ein dull yn rhesymol, pragmataidd a chymesur. Roedd y prif bryderon a fynegwyd yn ymwneud â chymesuredd ein cynigion ac ai cynllun taliadau cyfanwerthu oedd y lle gorau i'r fethodoleg sy'n tanategu'r taliadau ansylfaenol (a allai fod yn eithaf manwl).

Ein barn

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer ein cynigion. Rydym yn teimlo bod ein dull yn rhoi digon o dryloywder i fanwerthwyr wneud dewisiadau gwybodus, tra'n parhau'n gymesur (gan fod y rheol hon yn gymwys dim ond ar gyfer is-set gyfyngedig o daliadau ansylfaenol).

Mae rhyddid i gyfanwerthwyr gyhoeddi taliadau ansylfaenol eraill (neu'r fethodoleg danategol lle nad yw hyn yn bosibl) yn eu cynllun taliadau cyfanwerthu. Ac, er ein bod yn gwerthfawrogi bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod lle gwell i'r wybodaeth hon yn rhywle arall, yn gyson ag 'Ein barn' ar gwestiwn 7, nodwn y gellid cyfuno cynllun taliadau cyfanwerthu a dogfen tariff cyfanwerthu (i'r graddau y byddent yn nodi'r un wybodaeth) neu gellir eu cynnwys yn yr un ddogfen.

Cwestiwn 9: A ydych chi'n cytuno y bydd ein dull ar gyfer taliadau draeniad consesiynol yn sicrhau tryloywder priodol yn y taliadau hyn?

Crynodeb o'n cynnig

Gwnaethom gynnig ei bod hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddatgan yn glir pa ddisgowntiau draenio dŵr wyneb a allai fod ar gael a sut y gellid cael mynediad at y disgowntiau hyn. Dylai ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddarparu'r wybodaeth hon i fanwerthwyr ganiatáu i fanwerthwyr wneud penderfyniadau amserol ynglŷn â disgowntiau ar gyfer eu cwsmeriaid.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Ni wnaeth y mwyafrif o ymatebwyr wneud sylw neu nid oeddent yn teimlo ei bod yn briodol i wneud sylw (gan mai cwmnïau dŵr yn unig oeddent) ar ein gofyniad bod cyfanwerthwyr yn amlinellu pa ddisgowntiau draenio dŵr wyneb consesiynol oedd ar gael i fanwerthwyr a bod y rhain yn cael eu darparu mewn modd rhesymol ac anwahaniaethol. Fodd bynnag, roedd y

mwyafrif y rhai hynny a wnaeth ymateb yn cytuno â'n dull. Rydym yn croesawu hyn. Roedd pryderon a godwyd gan ymatebwyr eraill yn cynnwys:

- mae'r gofyniad hwn yn dyblygu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn rheolau cynllun taliadau;
- nid yw ein cynnig yn gymesur;
- roedd angen adlewyrchu elfen wirfoddol y consesiynau hyn yn ein rheolau; a
- gallai fod manteision mewn cyfanwerthwyr yn bod yn gyson yn eu hagwedd tuag at y consesiynau hyn.

Ein barn

Mae ein dull ar gyfer taliadau draenio consesiynol yn ceisio sicrhau y gall manwerthwyr ddarparu gwybodaeth a/neu basio ymlaen unrhyw ddisgowntiau draenio a ddarperir gan gyfanwerthwyr drwy sicrhau bod manwerthwyr yn gwybod pa daliad cyfanwerthu wedi'i ddisgowntio fydd yn gymwys. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i sicrhau arwyddion prisiau cliriach. Felly, er ein bod yn cydnabod bod rheol debyg i'w chael yn y rheolau cynllun taliadau, rydym yn teimlo bod ein dull yn briodol ac rydym yn croesawu'r gefnogaeth y mae ein cynnig wedi'i gael. Rydym, fodd bynnag yn cydnabod nad yw pob cyfanwerthwr yn cynnig y disgowntiau hyn ac y gellid gwella'r rheolau drafft drwy adlewyrchu'r elfen wirfoddol hon. Rydym felly wedi gwneud newid bychan i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu drafft er mwyn adlewyrchu hyn. O ran ei gwneud hi'n ofynnol i gael cysondeb dull, am y rhesymau a amlinellir yn 'Ein barn' i gwestiwn 3, nid ydym yn teimlo bod hyn yn briodol.

Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno bod ein cynnig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr gyhoeddi'r tâl cyfanwerthu ar gyfer unrhyw gwsmer sydd ar gytundeb arbennig yn gymesur ac y bydd yn effeithiol?

Crynodeb o'n cynnig

Gan ein bod am i fanwerthwyr newydd gystadlu am gwsmeriaid busnes cymwys sydd ar gytundeb arbennig, gwnaethom gynnig bod cyfanwerthwyr yn cyhoeddi'r taliadau cyfanwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes cymwys sydd ar hyn o bryd ar gytundeb arbennig gyda'u taliadau cyfanwerthol. Bwriad y cynnig hwn oedd cynyddu tryloywder a sicrhau bod manwerthwyr yn ymwybodol o faint yr elw sydd o bosibl ar gael.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd barn gymysg ar y cynnig hwn - er mai dim ond tri ymatebydd oedd yn anghytuno gyda'n cynnig, llai na hanner oedd yn ei gefnogi. Darparodd yr ymatebwyr a oedd yn weddill beth cefnogaeth tra hefyd yn amlygu pryderon. Y prif bryderon oedd:

- mae cyhoeddi'r deunydd hwn yn ddiangen gan ei fod eisoes wedi ei gynnwys yn y gofrestr cytundeb arbennig;
- roedd cyhoeddi'r wybodaeth hon, yn arbennig cytundebau hanesyddol, yn anghymesur, gallai beri dryswch a/neu arwain at gwsmeriaid yn peidio â thalu eu biliau (gan eu bod yn gallu gweld rhai o'r cytundebau eraill sydd wedi'u cytuno); a
- cwmnïau'n cael eu henwi a phryderon gyda chyfrinachedd masnachol, a allai gyfyngu ar faint o wybodaeth ar gytundeb arbennig y gallent ei rhyddhau.

Ein barn

Bwriedir i'n cynnig sicrhau cyfradd briodol o dryloywder a hwyluso datblygiad marchnad ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir o dan gytundebau arbennig (a'r farchnad manwerthu busnes yn fwy eang). Mae gwybodaeth am daliadau defnyddwyr terfynol ar gyfer cytundebau arbennig eisoes yn gyhoeddus drwy'r gofrestr cytundebau arbennig a bydd ein cynnig yn sicrhau bod gwybodaeth am y taliad cyfanwerthu ar gyfer cytundeb arbennig hefyd ar gael. Mae ein gofyniad felly yn ategu yn hytrach na dyblygu'r wybodaeth a ddarperir eisoes ac yn sicrhau bod gwybodaeth codi tâl cyfanwerthu allweddol ar gael mewn un man.

Rydym yn deall bod rhai trefniadau anarferol a gwahanol ar waith o dan gytundebau arbennig a allai beri rhai heriau ar gyfer cyfanwerthwyr (ac o bosibl rhywfaint o ddryswch ar gyfer defnyddwyr pan wneir cydran cyfanwerthu'r rhain yn gyhoeddus). Fodd bynnag, dylai bod cyfanwerthwr yn gallu cyfiawnhau ei daliadau, yn cynnwys y rheini a gytunwyd drwy gytundebau arbennig. Rydym yn rhagweld y bydd unrhyw drafodaethau ynglŷn â chytundebau arbennig, yn cynnwys y rheini sy'n deillio o'r cynnydd mewn tryloywder a ddaw yn sgil ein cynigion, yn:

- annog cyfanwerthwyr i ddeall yn well eu costau a'u hysgogwyr cost;
- cynorthwyo i fynd i'r afael ac unrhyw ddryswch posibl i gwsmeriaid ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu (gan y dylai'r cyfanwerthwr gael dealltwriaeth o'i gostau a'i ysgogwyr cost); a
- chynyddu'r cwmpas i fusnesau ddod i hyd i bris a chanlyniad gwasanaeth sy'n diwallu'n fwy priodol eu hanghenion.

Mae'r rhain yn ganlyniadau a groesawn.

O ran cyfrinachedd ac enwi cwsmeriaid, yn gyson â'r dull y gwnaethom ei fabwysiadu mewn cyhoeddi'r gofrestr cytundebau arbennig, ni fydd gofyn i gyfanwerthwr gyhoeddi enwau cwsmeriaid. Rydym yn rhagweld y bydd cyfanwerthwr yn darparu rhif cyfeirnod priodol (ac nid enw) a rhif cyswllt er mwyn caniatáu i bobl eraill â diddordeb drafod y cytundeb gyda'r cyfanwerthwr. Nid ydym yn cynnig cyhoeddi gwybodaeth a allai'n hawdd arwain at adnabod cwsmeriaid (megis lleoliad). O ran materion ehangach cyfrinachedd, nodwn fod gwybodaeth ynglŷn â chytundebau arbennig (yn cynnwys y taliadau mae cwsmeriaid yn eu talu) eisoes yn cael ei chyhoeddi'n ddiennw yn ein cofrestr cytundebau arbennig. Bydd ein rheolau codi tâl cyfanwerthu dim ond yn ei gwneud hi'n ofynnol i elfen gyfanwerthu taliad cytundeb arbennig gael ei datgelu - nid oes angen datgelu unrhyw wybodaeth arall o dan y rheolau hyn. Mae'r cwmpas i'r rhyddhau gwybodaeth hwn i achosi niwed masnachol i gwsmeriaid felly wedi ei gyfyngu a bwriedir iddo roi cwmpas i fusnesau sicrhau gwell canlyniad.

Cwestiwn 11: A oes gennych chi farn am y dull mwyaf priodol i ddelio ag ôl-filio - er enghraifft, a fyddai rhwymedigaeth gyffredinol mewn naill ai'r Cod Cyfanwerthu-Manwerthu, neu reol yn y rheolau codi tâl cyfanwerthu yn fwy priodol?

Crynodeb o'n cynnig

Ni wnaethom gyflwyno cynnig penodol ar ôl-filio. Yn hytrach, gwnaethom nodi bod y Panel Cod Interim (ICP) yn ystyried cynnig i addasu'r Cod Cyfanwerthu-Manwerthu (WRC) er mwyn sicrhau rheolau cyson ynglŷn ag ôl-filio rhwng cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn y farchnad newydd. Gwnaethom ddynodi pe bai'r ICP yn cytuno i'r newid hwnnw yna efallai na fyddai angen rheol codi tâl cyfanwerthu. Fodd bynnag, pe bai'r ICP ddim yn cytuno i'r newid hwn, gwnaethom ddynodi y byddai angen i ni ystyried a fyddai angen rheol codi tâl cyfanwerthu ar ôl-filio.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Awgrymodd mwyafrif yr ymatebwyr y byddai sicrhau dull cyson parthed ôl-filio²¹ ar gyfer cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn digwydd drwy'r WRC. Awgrymodd ddau gwmni y byddai gwneud rheol codi tâl cyfanwerthu i sicrhau cysondeb yn briodol, er bod un o'r rhain yn teimlo bod hyn yn bwysig dim ond er mwyn osgoi amheuaeth. Mynegwyd nifer o bryderon eraill gyda drafftiaid a gweithrediad yr WRC a'n [Cod Ymarfer Diogelu Cwsmeriaid \(CPCoP\)](#).

Ein barn

Ers cyhoeddi ein hymgyngoriad mis Awst, mae'r ICP wedi ystyried a chytuno ar gynnig i newid yr WRC er mwyn sicrhau rheolau cyson ynglŷn ag ôl-filio ar gyfer cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn y farchnad newydd. Rydym felly'n teimlo nad oes angen datblygu rheol codi tâl cyfanwerthu newydd ar gyfer ôl-filio. O ran y materion penodol a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â drafftio a gweithredu'r WRC a'n [CPCoP](#), nid ydym yn mynd i'r afael â'r materion penodol hynny yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, nodwn y gall unrhyw barti wneud cais am newid yr WRC a/neu y [CPCoP](#) os ydynt yn teimlo eu bod angen eu newid.

Cwestiwn 12: A ydych chi'n cytuno y bydd ein rheol arfaethedig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i NAVs yn Lloegr a Cholderton and District Water Company Limited gyhoeddi taliadau cyfanwerthu yn cyflawni ein nodau mewn modd cymesur?

Crynodeb o'n cynnig

Rydym wedi cynnig y byddai'n ofynnol i NAVs yn Lloegr a Cholderton and District Water Company Limited gyhoeddi taliadau cyfanwerthu o leiaf 9 wythnos cyn dechrau'r cyfnod y bydd unrhyw daliadau cyfanwerthu yn cael eu gosod. Roeddem yn teimlo y byddai'r amseru hyn, yn ogystal â'r cynnydd mewn tryloywder a ddeuai gyda'n cynnig, yn hwyluso cystadleuaeth ac yn cynorthwyo i ddatblygu'r farchnad manwerthu busnes.

²¹ Ôl-fil yw bil 'dal i fyny' sy'n digwydd pan fydd cyfanwerthwyr (neu fanwerthwr) yn nodi na chodwyd y tâl cywir ar fanwerthwr (neu gwsmer) am ei ddŵr.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd cefnogaeth gref i'n cynnig a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i NAVs yn Lloegr a Cholderton and District Water Company Limited gyhoeddi taliadau cyfanwerthu o leiaf 9 wythnos cyn dechrau'r cyfnod y bydd unrhyw daliadau cyfanwerthu yn cael eu gosod. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno ei bod hi'n rhesymol i NAVs a chwmnïau bach gyhoeddi taliadau o fewn yr amserlen a gynigiwyd gennym. Croesawodd un ymatebydd y rheolau ar gyfer cwmnïau bach ond awgrymodd hefyd y dylem gynnwys rheol a oedd yn amlinellu pryd y dylai NAVs ddisgwyl derbyn gwybodaeth am brisio gan gyfanwerthwyr. Amlygodd ein trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru hefyd ei bod hi'n teimlo y byddai'n gymesur i'r rheol hon fod yr un mor gymwys i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Ein barn

Croesawn y gefnogaeth ar gyfer y rheol hon gan y bydd taliadau cyfanwerthu clir a thryloyw yn hwyluso cystadleuaeth ac yn cynorthwyo i ddatblygu marchnad manwerthu busnes effeithiol. Rydym hefyd yn cytuno gyda barn Llywodraeth Cymru y byddai'n gymesur i'w gwneud hi'n ofynnol i NAVs y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru fod yn destun yr un gofyniad i gyhoeddi â'u cymheiriaid yn Lloegr. Rydym hefyd yn nodi'r cynnig y dylai ein rheolau gynnwys cyfeiriadau at amseriad pryd y dylai NAVs dderbyn gwybodaeth am brisio gan gyfanwerthwyr. Fodd bynnag, nid yw ein rheolau codi tâl cyfanwerthu yn berthnasol i'r taliadau (cyflenwad swmp) a wneir gan un cyfanwerthwr i un arall, hyd yn oed pan fod un o'r rhain yn NAV. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried pa waith pellach, os o gwbl, y gallwn ei wneud ar gyflenwadau swmp.

Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno â'n dull ar gyfer sicrwydd Bwrdd? Ac, a ydych chi'n cytuno gyda'n dewis i gyfanwerthwyr gyflwyno (lle bo hynny'n briodol) ddatganiad o newid sylweddol ar gyfer taliad cyfanwerthu sylfaenol o leiaf dri mis cyn y cyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol?

Crynodeb o'n cynnig

Roedd ein cynnig yn ei gwneud hi'n ofynnol bod sicrwydd Bwrdd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer taliadau cyfanwerthu dangosol a therfynol. Fel rhan o'r sicrwydd hwn byddai angen cynnal asesiad effaith cymesur lle disgwylir y bydd y taliadau cyfanwerthu a wynebir gan fanwerthwyr (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn cynyddu gan fwy na 5% ar y flwyddyn flaenorol. Hefyd, byddai'n ofynnol i fanwerthwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid

busnes (yn gyfan neu mewn grwpiau) ac ystyried yr effaith y byddai eu cynigion yn ei gael ar eu biliau. Fel rhan o'r sicrwydd ar gyfer taliadau cyfanwerthu terfynol gofynnwyd hefyd i Fyrddau gyhoeddi datganiad yn egluro unrhyw newid sylweddol rhwng taliadau cyfanwerthu dangosol a therfynol. Roeddem yn teimlo y byddai'r sicrwydd hwn yn cynorthwyo i wneud yn siŵr bod Byrddau yn berchen ar eu taliadau.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y byddai peth sicrwydd Bwrdd yn cynorthwyo manwerthwyr i gael hyder yn y wybodaeth codi tâl a ddarperir gan gyfanwerthwyr. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn ddiangen a/neu yn rhy feichus i ofyn am sicrwydd Bwrdd ar gyfer taliadau dangosol a therfynol. Roedd pryderon eraill yn cynnwys yr angen i gyfanwerthwyr ymgysylltu â chwsmeriaid busnes a'i bod hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ymgynghori â CCWater wrth ddatblygu eu taliadau.

Cefnogodd yr ymatebwyr ein dull i'w gwneud hi'n ofynnol cael datganiad o newid sylweddol gan gyfanwerthwyr. Fodd bynnag, y pryderon allweddol a fynegwyd oedd:

- dylai ond bod yn ofynnol i gyfanwerthwyr ystyried effaith newidiadau mewn taliadau i fusnesau ac nid defnyddwyr terfynol preswyl (gan mai dim ond y farchnad manwerthu busnes sy'n agor);
- dylai datganiadau o newid sylweddol fod yn seiliedig ar newidiadau real ac nid enwol; a
- dylid anfon copi o unrhyw ddatganiad o newid sylweddol at CCWater ar yr un pryd ag yr anfonir copi atom ni.

Ein barn

Mae sicrwydd Bwrdd - ar gyfer taliadau dangosol a therfynol - yn offeryn pwerus ar gyfer sicrhau bod Byrddau'n ymgysylltu â'u taliadau cyfanwerthu. Mae'r sicrwyddau hyn yn angenrheidiol i gynorthwyo i feithrin ymddiriedaeth a hyder wrth i'r farchnad manwerthu busnes ddatblygu. Ac, er y gallai ein dull roi peth baich ychwanegol, mae'r baich yn gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn bodloni ein hamcanion.

Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai cyfanwerthwyr yn teimlo nad oes angen ymgysylltu â chwsmeriaid busnes. Ond, gan fod taliadau cyfanwerthu yn cyfrif am tua 90% o'r costau a wynebir gan gwsmer busnes mae'n bwysig ymgysylltu â chwsmeriaid busnes yn natblygiad taliadau cyfanwerthu, a bod taliadau wedi'u diwygio fel sy'n briodol o ganlyniad. Rydym felly'n teimlo bod ein gofyniad am ymgysylltu ac adolygu yn angenrheidiol.

Croesawn y gefnogaeth i'n datganiad o newid sylweddol gan y bydd y datganiadau hyn yn cynyddu tryloywder a byddant yn rhoi cwmpas i fanwerthwyr herio newidiadau arfaethedig. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod cyfanwerthwyr yn deall yn well eu costau a'u gyrwyr cost.

Nid ydym, fodd bynnag, yn teimlo ei bod yn briodol i nodi a ddylai datganiad o newid sylweddol gael ei seilio ar delerau real neu enwol. Mae'r sbardun arfaethedig ar gyfer datganiad o newid sylweddol - os byddai person rhesmol yn ystyried newid arfaethedig i fod yn arwyddocaol - yn rhoi peth disgrisiwn i gwmnïau, gan roi'r cyfrifoldeb arnynt hwy i benderfynu'n ofalus y ffordd fwyaf priodol i nodi newid sylweddol. Mae'r dull hwn felly yn rhoi cymhelliant i gyfanwerthwyr ddeall yn well a diwallu anghenion eu cwsmeriaid. Rydym felly wedi gadael yr elfen hon o'n cynnig heb ei newid.

Ar fater ehangach ymgysylltiad CCWater, ni fydd ein rheolau codi tâl yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwr ymgysylltu â CCWater wrth ddatblygu ei daliadau cyfanwerthu. Disgrisiwn llwyr y cyfanwerthwr yw os, pryd a sut yr ymgysylltir â CCWater.

3.3 Materion eraill

Amlygodd nifer o ymatebwyr feysydd lle gellid gwella drafftiaid ein rheolau. Roedd y pryderon hyn yn nodweddiadol yn canolbwyntio ar yr angen i wella ein drafftio fel ei bod hi'n glir pryd y mae'r rheolau hyn yn gymwys - boed i gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a/neu gyfanwerthwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru - a bod ein rheolau ond yn gymwys i gyfanwerthwyr sy'n darparu gwasanaethau cyfanwerthu i fanwerthwyr sy'n darparu gwasanaethau i Eiddo Cymwys.

Mae ein rheolau codi tâl cyfanwerthu ond yn gymwys i gyfanwerthwyr sy'n darparu gwasanaethau cyfanwerthu i fanwerthwyr sy'n darparu gwasanaethau manwerthu i Eiddo Cymwys. Rydym felly wedi ceisio ei gwneud hyn yn glir yn ein rheolau codi tâl cyfanwerthu terfynol drwy fân newidiadau i'n drafftiaid. Fodd bynnag, mae cydnabod pwysigrwydd tryloywder a sicrhau na ddangosir gormod o ffafriaeth, ac nad oes gwahaniaethu gormodol yn erbyn unrhyw gwsmeriaid, rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol bod cyfanwerthwyr yn cynnwys eu holl daliadau cyfanwerthu o fewn eu cynllun taliadau cyfanwerthu - mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael drwy'r nodyn gwybodaeth yr ydym wedi ei ryddhau ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Rydym hefyd wedi gwneud nifer o fân newidiadau eraill i'n rheolau drafft er mwyn gwella eglurder.

A1 Crynodeb o newidiadau i'n rheolau codi tâl cyfanwerthu a gofynion gwybodaeth drafft

	Testun gwreiddiol	Testun wedi'i newid (newid mewn print trwm)	Rhesymeg dros y newid
Paragraff 3 (nawr yn baragraff 2)	Caiff y rheolau effaith parthed taliadau sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw gyfnod yn dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2017.	Daw'r rheolau i rym ar 24 Tachwedd ac maent yn berthnasol i daliadau sy'n daladwy parthed unrhyw gyfnod yn dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2017.	Er mwyn gwella eglurder
Paragraff 5	Mae “ cwmnïau bach ” yn golygu'r cwmnïau canlynol: (a) unrhyw gwmni sydd â phenodiad fel ymgwymerwr perthnasol lle bo amodau'r penodiad hwnnw'n cyfyngu newidiadau y gellir eu pennu o dan gynllun taliadau ...	Mae “ cwmnïau bach ” yn golygu'r cwmnïau canlynol: (a) unrhyw gwmni sydd â phenodiad fel ymgwymerwr perthnasol lle bo amodau'r penodiad hwnnw'n cyfyngu taliadau y gellir eu pennu o dan gynllun taliadau ...	Cywiro gwall
Paragraff 7	Rhaid i bob ymgwymerwr dŵr gyhoeddi'r taliadau cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai cyflenwi dŵr i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system gyflenwi'r ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai cytundeb arbennig fel arall yn berthnasol iddo.	Rhaid i bob ymgwymerwr dŵr gyhoeddi'r Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai cyflenwi dŵr i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system gyflenwi'r ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai Cytundeb Arbennig fel arall yn berthnasol iddo (er nad oes unrhyw beth yn y rheolau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi enw neu gyfeiriad cwsmer).	Er mwyn gwella eglurder
Paragraff 8	Rhaid i bob ymgwymerwr carthffosiaeth gyhoeddi'r taliadau cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai carthffosiaeth parthed darpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system garthffosiaeth yr ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai cytundeb arbennig fel arall yn berthnasol iddo.	Rhaid i bob ymgwymerwr carthffosiaeth y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr gyhoeddi'r Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai carthffosiaeth parthed darpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system garthffosiaeth yr ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai Cytundeb Arbennig fel arall yn berthnasol iddo (er nad oes unrhyw beth yn y rheolau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi enw neu gyfeiriad cwsmer).	Er mwyn gwella eglurder

<p>Paragraff 20</p>	<p>Rhaid i ymgwymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, mewn perthynas â phob Blwyddyn Codi Tâl sy'n dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2020, wahanu taliadau cyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth yn daliadau ar wahân ar gyfer derbyn, trin a gwaredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) dŵr budr; (b) elifiant masnachol; (c) draenio dŵr wyneb o eiddo; a (d) draenio dŵr wyneb o briffyrdd. 	<p>Rhaid i ymgwymerwyr carthffosiaeth y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, mewn perthynas â phob cyfnod sy'n dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2020, wahanu Taliadau Cyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth a ddarperir i Eiddo Cymwys yn daliadau ar wahân ar gyfer derbyn, trin a gwaredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) dŵr budr; (b) elifiant masnachol; (c) draenio dŵr wyneb o Eiddo Cymwys; a (d) draenio dŵr wyneb o briffyrdd. 	<p>Er mwyn gwella eglurder</p>
<p>Paragraff 26</p>	<p>Nid yw paragraff 0 y rheolau hyn yn gymwys i gwmnïau bach. Yn hytrach, rhaid i gwmnïau bach y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr gyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu (neu'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau o'r fath) o leiaf naw wythnos cyn dechrau'r cyfnod y bydd y taliadau'n cael eu gosod ar ei gyfer.</p>	<p>Nid yw paragraff 10 y rheolau hyn yn gymwys i gwmnïau bach. Yn hytrach, rhaid i gwmnïau bach gyhoeddi eu taliadau cyfanwerthu (neu'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau o'r fath) o leiaf naw wythnos cyn dechrau'r cyfnod y bydd y taliadau'n cael eu gosod ar ei gyfer.</p>	<p>Er mwyn ei gwneud hi'n glir bod hyn yn gymwys i bob cwmni bach ac i gywiro gwllau.</p>
<p>Gofynion gwybodaeth A1</p>	<p>Dylai pob ymgwymerwr roi datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwyr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi ei ddatganiad dim hwyrach nac amser cyhoeddi ei daliadau cyfanwerthu yn cadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r taliadau cyfanwerthu y mae wedi eu cyhoeddi; (b) bod y Bwrdd wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar drwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cymwys ac i ddefnyddwyr terfynol busnes (yn gyfan neu mewn grwpiau) a'i fod yn cymeradwyo'r asesiadau effaith a strategaethau trin a ddatblygwyd mewn sefyllfaoedd lle bo cynnydd bil ar gyfer trwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu i 	<p>Dylai pob ymgwymerwr roi datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwyr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi ei ddatganiad dim hwyrach nac amser cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol yn cadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Taliadau Cyfanwerthu y mae wedi eu cyhoeddi; (b) bod y Bwrdd wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar drwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedion carthffosiaeth (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) a'i fod yn cymeradwyo'r asesiadau effaith a strategaethau trin a ddatblygwyd mewn sefyllfaoedd lle bo cynnydd bil ar gyfer trwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu i gwsmeriaid cymwys ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn uwch na 5%; 	<p>Er mwyn gwella eglurder ac i gyfleu ein bwriad polisi datganedig</p>

	<p>gwsmeriaid cymwys a defnyddwyr terfynol busnes (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn uwch na 5%;</p> <p>(c) bod gan y cwmni systemau a phrosesau priodol ar waith (yn cynnwys modelau a data wedi'u diweddarau) er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gyhoeddir am ei daliadau cyfanwerthu dangosol yn gywir; a</p> <p>(d) mae'r cwmni wedi ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol mewn modd amserol ac effeithiol ar ei daliadau cyfanwerthu; a</p>	<p>(c) bod gan y cwmni systemau a phrosesau priodol ar waith (yn cynnwys modelau a data wedi'u diweddarau) er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gyhoeddir am ei Daliadau Cyfanwerthu yn gywir;</p> <p>(d) mae'r cwmni wedi ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol mewn modd amserol ac effeithiol ar ei Daliadau Cyfanwerthu; a</p> <p>(e) Ile bod Taliadau Cyfanwerthu yn sylweddol wahanol i'r Taliadau Cyfanwerthu dangosol a gyhoeddwyd ar gyfer yr un cyfnod, mae'r Bwrdd wedi ystyried y rhesymau pam fod y newidiadau hynny wedi digwydd ac wedi cyhoeddi datganiad yn egluro pam na ragwelwyd a/neu na liniarwyd y newidiadau hynny. At y dibenion hyn, mae "Taliadau Cyfanwerthu dangosol" yn golygu'r wybodaeth y cyfeirir ati yn A3 isod ac mae taliadau'n "sylweddol wahanol" pe byddai person rhesymol yn ystyried y newidiadau i fod yn arwyddocaol.</p>	
Gofynion gwybodaeth A2	Dim hwyrach na chwe mis cyn cyhoeddi ei daliadau cyfanwerthu, dylai pob ymgymwrwr (ac eithrio cwmni bach), os yw'n ystyried gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r daliadau cyfanwerthu sylfaenol gyhoeddi gwybodaeth sy'n hysbysu rhanddeiliaid, lle mai sylweddol fydd pe bai person rhesymol yn eu hystyried yn arwyddocaol.	Dim hwyrach na chwe mis cyn cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol, dylai pob ymgymwrwr (ac eithrio cwmni bach), os yw'n ystyried gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r Daliadau Cyfanwerthu sylfaenol, gyhoeddi gwybodaeth sydd, fel isafswm, hysbysu rhanddeiliaid o gwmpas ei newidiadau arfaethedig. At y dibenion hyn, bydd newidiadau'n "sylweddol" os byddai person rhesymol yn eu hystyried yn arwyddocaol. Nid oes angen i'r wybodaeth a ddarperir fod mor fanwl â honno y cyfeirir ati yn A3 ac A4 isod.	Er mwyn gwella eglurder
Gofynion gwybodaeth A4	<p>(a) dylai datganiad o newidiadau sylweddol gynnwys:</p> <p>(i) pa newidiadau sy'n ddisgwyliedig;</p> <p>(ii) sut mae trwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) a defnyddwyr terfynol busnes (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn debygol o gael eu heffeithio arnynt; a'r</p>	<p>(a) dylai datganiad o newidiadau sylweddol gynnwys:</p> <p>(i) pa newidiadau sy'n ddisgwyliedig;</p> <p>(ii) sut mae trwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedeion carthffosiaeth (yn gyfan neu mewn grwpiau) a chwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn debygol o gael eu heffeithio arnynt; a'r</p>	Er mwyn gwella eglurder

	(iii) strategaethau trin y gellid eu defnyddio gan y cwmni neu pam fod y cwmni o'r farn nad oes angen unrhyw strategaethau trin.	(iii) strategaethau trin y gellid eu defnyddio gan y cwmni neu pam fod y cwmni o'r farn nad oes angen unrhyw strategaethau trin.	
Gofynion gwybodaeth A5	Dylai pob ymgymwr ddarparu datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwyr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ...	Dylai pob ymgymwr (ac eithrio cwmni bach) roi datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwyr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ...	Er mwyn gwella eglurder
Amrywiol baragraffau	Amrywiol fân newidiadau, yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • prif lythrennau ar gyfer rhai termau a ddiffinnir ym mharagraff 5; • disodli Eiddo gydag Eiddo Cymwys (lle bo'n briodol); a • cyflwyno'r term terfynol i ddisgrifio'r Taliadau Cyfanwerthu a gyhoeddir wedi Taliadau Cyfanwerthu dangosol. 	Amrywiol.	Er mwyn gwella eglurder

A2 Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau taliadau cyfanwerthu drafft sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 1? A oes rheolau ychwanegol y dylem eu cynnwys yn y dyfodol?

C2 A ydych chi'n cytuno gyda'r trothwy (5%) a gynigir gennym ar gyfer cynnydd sylweddol mewn biliau, y bydd gofyn i gyfanwerthwyr os byddant yn mynd yn uwch nag ef gynnal asesiad effaith ar gyfer newid i daliadau?

C3 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i beidio â gosod rheolau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i safoni taliadau cyfanwerthu ar y pwynt hwn, ond i ystyried y mater hwn ymhellach, wedi i'r farchnad agor, gan roi ystyriaeth i unrhyw gynnydd gan y diwydiant i ddatblygu strwythurau codi tâl wedi'u safoni a'r manteision o'r safoni hwnnw?

C4 A ydych chi'n ystyried bod ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr ddarparu diweddariad ar newidiadau sylweddol posibl i'w taliadau cyfanwerthu chwe mis cyn y cyhoeddir eu taliadau terfynol yn briodol? Ac, a ydych chi'n ystyried bod gofyn am wybodaeth am eu taliadau cyfanwerthu dangosol sylfaenol dri mis cyn bod unrhyw daliadau newydd yn cael eu cyhoeddi yn rhesymol?

C5 A ydych chi'n cytuno bod ei gwneud hi'n ofynnol i gael sicrwydd Bwrdd ar gyfer taliadau cyfanwerthu sylfaenol dangosol yn rhesymol? A, lle bo newidiadau sylweddol yn lefel y taliadau yn y tri mis rhwng taliadau dangosol a therfynol, ei bod yn rhesymol i'w gwneud hi'n ofynnol i Fwrdd gyhoeddi, fel rhan o'i sicrwydd Bwrdd, ddatganiad yn egluro pam fod hyn wedi digwydd a pham na ragwelwyd hyn?

C6 A ydych chi'n cytuno gyda'u gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr hysbysu manwerthwyr am brisiau ar wahân ar gyfer gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff cyfanwerthu a ddarperir iddynt? Ac, a ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol y dylai fod yn ofynnol i gyfanwerthwyr ystyried sut y byddant yn gwahanu - wedi ystyried costau'r gwasanaethau hyn ac wedi ymgysylltu'n briodol â'u rhanddeiliaid - y gwahanol wasanaethau dŵr gwastraff y maent yn eu darparu i'w cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Ebrill 2020?

C7 A ydych chi'n cytuno y dylai rhestr ofynnol o daliadau ansylfaenol ffurfio rhan o bob cynllun codi tâl cyfanwerthu? A ydych chi'n cytuno y dylai cyfanwerthwyr, ac nid Ofwat, geisio sicrhau mwy o gysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio taliadau ansylfaenol?

C8 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion y bydd gofyn i gyfanwerthwyr gyhoeddi'r fethodoleg sy'n sail i daliadau ansylfaenol ar gyfer set gyfyngedig o daliadau lle na ellir gosod y taliadau hyn ymlaen llaw? A yw'r dull hwn yn gymesur ac a fydd yn effeithiol?

C9 A ydych chi'n cytuno y bydd ein dull ar gyfer taliadau draeniad consesiynol yn sicrhau tryloywder priodol yn y taliadau hyn?

C10 A ydych chi'n cytuno bod ein cynnig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyfanwerthwyr gyhoeddi'r tâl cyfanwerthu ar gyfer unrhyw gwsmer sydd ar gytundeb arbennig yn gymesur ac y bydd yn effeithiol?

C11 A oes gennych chi farn am y dull mywaf priodol i ddelio ag ôl-filio - er enghraifft, a fyddai rhwymedigaeth gyffredinol mewn naill ai'r Cod Cyfanwerthu-Manwerthu, neu reol yn y rheolau codi tâl cyfanwerthu yn fwy priodol?

C12 A ydych chi'n cytuno y bydd ein rheol arfaethedig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i NAVs yn Lloegr a Cholderton and District Water Company Limited gyhoeddi taliadau cyfanwerthu yn cyflawni ein nodau mewn modd cymesur?

C13 A ydych chi'n cytuno â'n dull ar gyfer sicrwydd Bwrdd? Ac, a ydych chi'n cytuno gyda'n dewis i gyfanwerthwyr gyflwyno (lle bo hynny'n briodol) ddatganiad o newid sylweddol ar gyfer taliad cyfanwerthu sylfaenol o leiaf dri mis cyn y cyhoeddir taliadau cyfanwerthu terfynol?

A3 Rhestr ymatebwyr

Rydym yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

A3.1 Cwmnïau dŵr

- Affinity Water
- Anglian Water
- Bristol Water
- Business Stream
- Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- Dŵr Cymru (Welsh Water)
- Northumbrian Water
- Portsmouth Water
- Dŵr Hafren Trent
- South East Water
- Southern Water
- South Staffs Water
- SSE
- South West Water
- Thames Water
- United Utilities
- Wessex Water
- Yorkshire Water

A3.2 Arall

- Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Sefydliad Peirianwyr Sifil